cynllun prentisiaeth
gwasanaeth tân ac achub de cymru

south wales fire and rescue service
apprenticeship scheme

# TECHNEGYDD PRENTIS CERBYDAU NWYDDAU YSGAFN

**(Cytundeb Cyfnod Penodol o 4 blynedd, Medi 2022 – ddiwedd Awst 2026)**

## Dwy swydd wag ar gael

## CYFLOG

**£203.70 yr wythnos 16-17 oed**
**£296.29 yr wythnos 18 oed ac yn fwy +**

Cododd gyfle cyffrous am Brentis Technegydd Cerbydau Nwyddau Ysgafn o fewn y Gweithdai Fflyd a Pheirianneg a leolir yn ein Pencadlys yn Llantrisant. Mae'r Gwasanaeth yn gweithredu fflyd o fwy na 400 cerbyd a bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn rhan o dîm, a bydd eu rôl yn cynnwys sy'n gyfrifol am wasanaethu, trwsio a chynnal a chadw cerbydau, peiriannau trymion ac offer arbenigol.

Mae swydd Prentis Technegydd Cerbydau Nwyddau Ysgafn yn heriol a gwobrwyol. Disgwylir i'r ymgeisydd llwyddiannus ddatblygu ei lefel o arbenigedd technegol a gwybodaeth am weithio'n ddiogel drwy ddilyn rhaglen o Addysg Bellach o fewn y gweithle ac amgylchedd Coleg ill dau.

Dylai ymgeiswyr allu dangos tueddfryd mecanyddol ar lefel sylfaenol. Mae awydd dysgu am y disgyblaethau peirianneg modurol niferus a'u deall hefyd yn hanfodol, gan fod hyn yn rhan annatod o holl sgiliau Technegydd. Disgwylir i ddeiliad y swydd ennill cymhwyster Prentisiaeth Sylfaenol Lefel 2 a 3 ochr yn ochr â'u gwaith bob dydd.

**Mae manteision y Brentisiaeth hon yn cynnwys:-**

- Cyfleusterau campfa ar y safle
- Cynllun Pensiwn y Llywodraeth Leol
- Parcio am ddim ar y safle
- Mynediad i fanteision y a chynlluniau lles y Gwasanaeth
- 25 diwrnod o wyliau blynyddol yn ogystal â gwyliau banc

**Ni does modd ystyried ymgeiswyr sydd:-**

- â chymhwyster uwch neu groes o fewn yr un pwnc yn barod
- yn gwneud unrhyw gymhwyster arall a ariannir gan lywodraeth

**Sgiliau Iaith Gymraeg**

Rydym yn ymrwymedig i gefnogi hawliau siaradwyr Cymraeg i dderbyn gwasanaethau o ansawdd drwy gyfrwng y Gymraeg ac felly, byddai'n ddymunol pe bai'r ymgeisydd llwyddiannus yn siarad Cymraeg, ac yn bod yn barod i ddefnyddio'r iaith o fewn eu gwaith o ddydd i ddydd.

Mae'r holl ddogfennaeth ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg ac rydym yn croesawu cyfathrebu yn y ddwy iaith. Ni fydd ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg yn cael eu trin yn llai ffafriol. Bydd ymgeiswyr sy'n llwyddo yn y cam Llunio Rhestr Fer yn cael cyfle i gadarnhau eu dewis iaith ar gyfer cyfweliadau ac asesiadau (gan gynnwys gwaith papur, cyflwyniadau llafar a chwestiynau cyfweliad). Bydd y trefniadau'n cael eu cadarnhau yn dilyn gwahoddiad i gyfweliad a gellir darparu gwasanaeth Cyfieithu a/neu Gyfieithu ar y Pryd.

cynllun prentisiaeth
gwasanaeth tân ac achub de cymru

south wales fire and rescue service
apprenticeship scheme

Wrth berfformio'r rôl uchod, bydd gofyn i bob gweithiwr o fewn y Gwasanaeth ufuddhau i Werthoedd Craidd y Gwasanaeth a'u hyrwyddo, sef bod:

| | | |
|---|---|---|
| **Yn broffesiynol** | **Yn bwrpasol** | **Yn ddisgybledig** |
| **Yn ofalgar** | **Yn ddibynadwy** | **Yn hydwyth** |
| **Yn barchus** | **Yn rymus** | |

Gellir lawr lwytho Ffurflen Gais, Manyleb Person a Swydd-Ddisgrifiad o dudalennau 'Gweithio i ni' ein gwefan www.decymru-tan.gov.uk. Y dyddiad cau ar gyfer derbyn ceisiadau yw **12:00, ganol dydd 10/08/2022.**

Dylid dychwelyd Ffurflenni Cais gorffenedig at: Y Tîm Recriwtio ac Asesu, Pencadlys Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru, Parc Busnes Forest View, Llantrisant CF72 8LX.

Bydd angen i'r ymgeisydd llwyddiannus ymgymryd â Phrawf Cyffuriau ac Alcohol a Gwiriad gan Wasanaeth Datgelu'r Alban cyn y gwneir unrhyw benodiad.

Mae Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru yn credu yng ngwerth gwirioneddol cael gweithlu amrywiol ac rydym yn dymuno annog yn rhagweithiol i ymgeiswyr o bob sector cymdeithas ymgeisio.

Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru

South Wales Fire and Rescue Service

hyderus o ran anabledd
YMRODDEDIG